Chwaraeon RhCT Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - Enillwyr rhif 12

# Clwb Pêl-droed Iau Gadlys Rovers

Eleni mae aelodau Iau Gadlys Rovers wedi gweithio'n galed iawn i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o fanciau bwyd sy'n rhoi cymorth i'r rheiny sy'n dioddef yn eu cymuned. Cynhaliodd y clwb sawl casgliad trwy gydol y pandemig, gan ofyn i chwaraewyr, rhieni a'r gymuned roi eitemau i fanc bwyd Salvation Army yn Aberdâr.

Hyfforddwr y tîm dan 11 oed, David Edwards, a Chadeirydd y Clwb, David Dennis, arweiniodd yr ymgyrch ynghyd â'u meibion, Zack, Jake ac Elliot (sy'n chwarae i'r Clwb). Mae'r clwb wedi rhoi sawl bag a bocs llawn bwyd, cewynnau, a nwyddau glanweithiol. Mae banciau bwyd wedi bod yn gymorth enfawr i nifer trwy'r pandemig ac mae gwaith y Clwb yma wedi cael effaith enfawr ar ei gymuned.

